**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 7 Mai 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 22 Mai 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 6:STRATEGAETH TOILEDAU CYHOEDDUS

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a mabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae rhan 8 o'r Ddeddf Iechydd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru ii lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal erbyn 31 Mai 2019.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth ddrafft rhwng 1 Chwefror a 1 Mai 2019, ac mae crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 7 Mai 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 22 Mai 2019 |

## PWNC

Eitem 7:CYNLLUN Y CYNGOR: CAIS AM ADNODDAU DATBYLGU TECHNOLEG I GEFNOGI FFORDD GWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo dyraniad am £341,046 (tua £113,000 y flwyddyn am dair blynedd) o'r Gronfa Trawsffurfio i gwrdd â chynnydd sylweddol mewn galw i ddatblygu systemau cyfrifiadurol i wella gwasanaethau ar draws Cyngor Gwynedd yn sgil darganfyddiadau ymarferion Ffordd Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Uned Datblygu Systemau o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn datblygu systemau cyfrifiadurol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor. Rhaid blaenoriaethu adnoddau datblygu a bydd yn cael ei wneud ar sail rhestr o anghenion sydd wedi ei hadnabod yn dilyn ymarferiad dadansoddi. Yn hanesyddol mae'r galw am gynnyrch gan yr uned yn uchel ond yn dilyn llwyddiant ymarferion Ffordd Gwynedd mae'r galw'n llawer uwch na'r gallu i gyflenwi.

Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2018, roedd 46% o'r ceisiadau a dderbyniwyd wedi eu datblygu, gyda 54% wedi eu gwrthod neu heb eu cwblhau. Yn dilyn llwyddiant ymarferion Ffordd Gwynedd, mae wedi ysgogi mwy o ddefnydd thechnoleg i wella gwasanaethau'r Cyngor ac ers Ebrill 2018 mae 26% o'r ceisiadau wedi eu datblygu tra nad oes adnodd ar gael i roi sylw i'r 74% eraill.

Drwy gyflogi 3 sydd datblygwr bydd yn cynyddu gallu'r Uned i ymateb i geisiadau datblygu'n sylweddol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 7 Mai 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 22 Mai 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 8:TREFNIADAU TAL CRWNER

---

**PENDERFYNIAD**

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid, i gytuno ar drefniadau i dalu cyflog i'r Uwch Grwner, a ffi i'r Crwner Cynorthwyol yn unol a'r adroddiad.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol i gytuno ar drefniadau cyflog newydd gyda'r Uwch Grwner ar sail Cylchlythyrau 61 a 62 JNC. Yn dilyn trafodaethau a'r Uwch Grwner, argymhellir trefn o bennu cyfanswm blynyddol ar gyfer yr Uwch Grwner ar sail cymhareb nifer o achosion yn hytrach na threfn taliadau dyddiol a argymhellir yn y Cylchlythyr.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Cyng. Catrin Wager, gan fod y Crwner yn aelod o'i theulu.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 7 Mai 2019 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 22 Mai 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 9:ADOLYGIAD RHEOLAETHOL

---

**PENDERFYNIAD**

a) Yn amodol ar (b), cytuno gydag asesiad y Prif Weithredwr fod y strwythur rheolaethol a ddangoswyd yn Atodiadau 1 i 10 yn addas i bwrpas.
b) Cytuno i leihau'r nifer uwch o swyddi o fewn y Cyngor o 40 i 37 fel y nodir yng nghymalau 61, 62 a 64 yr adroddiad gan arbed isafswm o £211,000 yn flynyddol.
c) Gan nodi'r gofynion ym mharagraff 95 o'r adroddiad, cytuno i greu Adran Tai ac Eiddo newydd er mwyn ein galluogi i roi mwy o ffocws ar gyflawni ein Strategaeth Tai a gofyn i'r Prif Weithredwr ail edrych ar sefyllfa Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn gweld a oes modd arall o wireddu'r amcanion a nodir yn yr adroddiad o ran strwythur rheolaethol ac arbedion effeithlonrwydd pellach.
ch) Nodi'r man newidiadau pellach y bwriedi'r eu gweithredu fel y'u hamlinellir yng nghymalau 76-88 yr adroddiad sy'n cynnwys symud rheolaeth adeiladu i'r adran Amgylchedd er mwyn iddo fod yn agosach at Cynllunio.
d) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol addasu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddod yn weithredol.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Penderfynodd y Cabinet ym mis Mai'r llynedd i gomisiynu adolygiad o haenau rheolaethol o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod trefniadau rheolaethol y Cyngor yn addas i bwrpas. Roedd hyn yn deillio o gwestiwn oedd yn cael ei ofyn i'r Prif Weithredwr, yn wyneb yr hinsawdd bresennol, am y potential i leihau'r nifer o reolwyr sydd gan Gyngor Gwynedd. Adroddwyd ar ganlyniadau'r arolwg a'r argymhellion oedd yn deillio.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad